**Cofnodion Drafft**

**COFNODION O GYFARFOD IS BWYLLGOR CYLLID CYNGOR CYMUNED HARLECH A GYNHALIWYD YN YR HEN LYFRGELL, HARLECH A DROS ZOOM AM 9.00 O'R GLOCH Y BORE 5.5.26**

**YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Giles Bentham.

**PRESENNOL**

Cyng. James Maxwell (Is-Gadeirydd), Reg Chapman, Martin Hughes a'r Clerc

**COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Ebrill 1af 2026 fel rhai cywir.

**MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi cysylltu gyda Rhain Williams, Swyddog Cludiant, Cyngor Gwynedd ynglyn a chael mwy o lochesi bws ond heb gael ateb eto.
'Roedd Mr. Meirion Evans wedi cychwyn ar y gwaith o osod y giat a creu llwybr yng nghae chwarae Brenin Sior.

**MATERION YN CODI**

**Cyllideb y Cyngor am y flwyddyn 2026/27**

Cafwyd drafodaeth ynglyn ar uchod a cytunwyd bod y gyllideb yn iawn ar hyn o bryd.

**Adolygu Rheolau Ariannol y Cyngor**

Ar ol trafodaeth cytunwyd i adoloygu yr uchod yng nghyfarfod mis Mehefin o'r pwyllgor hwn.

**Cyfraniad gan Gynghorwyr**

Nid oedd dim cyfraniad gan unrhyw Gynghorydd.

**ARWYDDWYD.......................................Cadeirydd DYDDIAD..............................................**